# Gwerthusiad Ffurfiannol o'r Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol a WASPI

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb Ymchwil | Ymchwil Cymdeithasol | Rhif y ddogfen: 01/2013

Penododd Llywodraeth Cymru SQW Ltd ym mis Mai 2012 i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o'r Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol, yn cynnwys Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI).

Cynhwysodd y gwerthusiad arolwg o unigolion sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth a llywodraethu, ymgynghoriadau ag ymarferwyr mewn meysydd gwasanaeth dethol, astudiaethau achos ar arfer da mewn rhannu gwybodaeth, ac ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid strategol.  Ymgysylltwyd â dros 300 o unigolion sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru yn y gwerthusiad.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Cyd-destun a rhesymeg:**

Mae rhannu gwybodaeth yn effeithiol er mwyn lleihau canlyniadau negyddol a gwella darpariaeth gwasanaeth yn ganolbwynt polisi hirsefydledig yn y DU a Chymru. Gan dynnu ar y Ddeddf Diogelu Data, Adolygiad Caldicott ac agenda 'Creu'r Cysylltiadau' Llywodraeth Cymru ar gyfer cydweithio, roedd y cyd-destun polisi yn 2010 yn gefnogol i ymyrraeth i wella rhannu gwybodaeth ledled Cymru.

Y rhesymeg ar gyfer y Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol, yn cynnwys y WASPI, oedd yr angen i wella darpariaeth gwasanaeth ac atal canlyniadau negyddol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau drwy well arfer rhannu gwybodaeth bersonol ledled Cymru.

Roedd angen ymyrraeth i fynd i'r afael â heriau cydlynu mewn rhannu rhwng sefydliadau, bylchau gwybodaeth a diffyg dealltwriaeth ynglŷn â 'beth a pham' o ran rhannu, a'r canfyddiadau o risg mewn rhannu a arweiniodd at y sefyllfa lle'r mai'r sefyllfa ddiofyn oedd peidio rhannu.

Wedi'i danategu gan sail tystiolaeth gadarn, daw'r gwerthusiad ffurfiannol i'r casgliad bod y rhesymeg ar gyfer y Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol, yn cynnwys ei phwyslais ar hyrwyddo WASPI fel y fframwaith cenedlaethol ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol, yn gadarn.

**Mewnbynnau a gweithgareddau:**

Mae rhoi arfer rhannu gwybodaeth gwell ar y gweill, yn bennaf drwy ddatblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth (PRhG) yn broses ddwys o ran adnoddau, ar lefel strategol er mwyn darparu arweiniad, cyngor a hyfforddiant ac yn lleol. Er na chafodd ei fonitro'n ffurfiol, mae'r ymchwil yn awgrymu y gallai 'costau cudd' gwella arfer rhannu gwybodaeth ar lefel leol fod yn  sylweddol o gofio'r mewnbynnau sydd eu hangen ar gyfer datblygu PRhG a'r ystod o bartneriaid sydd yn rhan ohono yn aml.

Cyflawnwyd ystod o weithgareddau gan y Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol a'r WASPI, yn cynnwys hyfforddi hwyluswyr PRhG, annog rhai i gytuno i'r WASPI, adolygu a sicrwydd ansawdd y PRhG, a chynnal digwyddiadau rhanddeiliaid a chymuned ymarfer ar-lein. Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn awgrymu bod y Tîm WASPI canolog wedi ei dan-adnoddu hyd yma o gofio ei amcanion a'i gylch gwaith eang.

Ar lefel leol, mae gweithgaredd rhannu gwybodaeth yn rheolaidd, eang ac wedi ei wreiddio i raddau helaeth fel elfen graidd o gyflenwi gwasanaethau ar draws sectorau a meysydd gwasanaeth. Fodd bynnag, ymddengys bod rhannu gwybodaeth yn llai cyffredin ymhlith y sector gwirfoddol/cymunedol nag ydyw o fewn y sector cyhoeddus.

Mae rhwystrau mawr yn parhau ym maes rhannu gwybodaeth, yn cynnwys gallu 'systemau' (yn cynnwys cyfaddasrwydd TG a dulliau diogel cyson o drosglwyddo data), 'hyder' ymhlith ymarferwyr, yn cynnwys pryderon ynglŷn â dyletswyddau cyfreithiol, a gwybodaeth am sut a phryd i rannu ar draws sefydliadau gwahanol. Mae'r materion hyn i'w gweld yn amlwg ar draws y gwahanol feysydd gwasanaeth a rhwng

gwahanol sectorau a gwmpesir gan yr ymchwil hwn.

Mae'r staff rheoli gwybodaeth a’r ymarferwyr cyflenwi gwasanaeth a oedd yn rhan o’r gwaith wedi nodi cyfaddasrwydd systemau/dulliau diogel o drosglwyddo data a phryderon parhaus parthed diogelu data fel rhwystrau allweddol i rannu gwybodaeth.

Nodwyd nifer o alluogwyr rhannu gwybodaeth gan yr ymchwil. Un galluogydd allweddol yw ymddiriedaeth a pherthynas rhwng unigolion a rhwng sefydliadau. Yn gyson â hyn, mae rhannu gwybodaeth yn digwydd yn rheolaidd drwy gyfarfodydd, trafodaethau a rhwydweithiau personol, neu drwy e-bost, yn hytrach na defnyddio cronfeydd data ffurfiol a systemau integredig. Anaml yn unig y defnyddir dynodwyr cyffredin.

Mae’r ymgysylltiad mewn hyfforddiant ar rannu gwybodaeth gan yr ymarferwyr yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr ymchwil hwn wedi amrywio. Hefyd ymddengys bod cryn rannu yn digwydd lle bod hyfforddi ymhlith staff yn gyfyngedig, a lle nad oes Protocolau Rhannu Gwybodaeth yn eu lle. Gan dynnu ar y dystiolaeth a gasglwyd ymddengys bod y cryn amrywiaeth mewn arfer rhannu gwybodaeth ar draws Cymru yn parhau.

**Allbynnau, canlyniadau ac effeithiau:**

Gwnaed cynnydd da mewn sicrhau rhai i gytuno i’r WASPI: mae 91 sefydliad erbyn hyn wedi cytuno, yn cynnwys pob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd, a nifer sylweddol o sefydliadau sector gwirfoddol a chymunedol. Mae’r Rhaglen hefyd wedi hyfforddi dros 100 o hwyluswyr PRhG.

Gwaned cynnydd llai mewn cyflenwi ‘PRhG Gwarantedig’ gyda dim ond 10 yn eu lle, er bod rhagor nag 20 ar hyn bryd yn disgwyl gwarantiad. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y WASPI yn rhoi ysgogiad pwysig i ddatblygu PRhG ar draws Cymru a’r gwelliannau ehangach mewn arfer rhannu gwybodaeth. Yn ogystal â gwella rhannu gwybodaeth gall y broses o ddatblygu PRhG ynddi ei hun roi manteision pwysig eraill, gan

gynorthwyo i wella cynllunio gwasanaeth a datblygu partneriaethau rhwng sefydliadau.

Mae'r rhan fwyaf, ond nid pawb, sy'n rhan o reoli gwybodaeth a chyflenwi gwasanaeth a gwmpesir gan yr ymchwil yn credu bod rhannu gwybodaeth wedi dod yn fwy effeithiol dros y tair blynedd diwethaf, ers lansio'r Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol. Gwnaed cynnydd sylweddol mewn rhoi protocolau priodol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol ac mae canfyddiadau o ymrwymiad cynyddol gan uwch swyddogion tuag at rannu gwybodaeth bersonol yn amlwg gan staff rheoli gwybodaeth ac ymarferwyr cyflenwi gwasanaeth. Gan gynnig manteision ehangach dros yr hirdymor, dywedodd llawer o ymarferwyr hefyd bod rhannu gwybodaeth wedi gwella cydweithio rhwng partneriaid.

Mae tystiolaeth galonogol gan ymarferwyr ynglŷn â chanlyniadau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, a gwelliannau i effeithlonrwydd cyflenwi gwasanaethau o ganlyniad i well arfer mewn rhannu. Er bod y dystiolaeth o'r manteision hyn ar hyn o bryd yn gyfyngedig, mewn mannau mae'n ymddangos fel petai gwell rhannu gwybodaeth yn galluogi sefydliadau i gyflenwi gwasanaethau gwell, cyflymach a mwy at y diben i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae ychwanegoldeb y Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol a'r WASPI yn galonogol: mae'r rheiny sy'n ymgysylltu mewn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn cydnabod ei fod wedi chwarae rhan mewn sbarduno a chefnogi gwelliannau i arfer rhannu gwybodaeth. Mae ffactorau eraill wedi bod yn bwysig, yn cynnwys yr hwb cyffredinol tuag at weithio integredig a chyflenwi amlasiantaeth, a fframweithiau presennol ar gyfer rhannu a chydweithio sy'n rhagddyddio'r WASPI. Mae'r Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol a'r WASPI wedi ategu'r broses hon a'r seilweithiau hyn sy'n bodoli eisoes.

Y rhesymeg ar gyfer y Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol yw gwella rhannu gwybodaeth er mwyn cael gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau,

ac atal niwed. Mae'r ymchwil yn dynodi bod y rhesymeg yma yn cael ei chyflawni mewn sawl achos. Fodd bynnag, mae llawer o rwystrau mawr yn parhau ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol yn effeithiol ynglŷn â defnyddwyr gwasanaethau ar draws Cymru, y gellid ac y dylid mynd i'r afael â hwy.

**Argymhellion:**

Yn wyneb y casgliadau hyn cynigiwn yr argymhellion canlynol:

**Argymhelliad 1: Dylai'r Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol, yn cynnwys cefnogaeth i'r WASPI, gael ei barhau.** Dengys yr ymchwil bod rhwystrau sylweddol i rannu gwybodaeth yn parhau, yn cynnwys ofnau ynghylch ddyletswyddau cyfreithiol, cyfaddasrwydd systemau a phrosesau gwybodaeth, a'r anghysondeb mewn arfer rhannu o fewn a rhwng sectorau. Mae gwaith i'w wneud o hyd i wella arfer rhannu gwybodaeth ac i ddatblygu dealltwriaeth ynglŷn â'r rhwystrau i rannu effeithiol yn cynnwys drwy ymchwil manylach i'r materion arbennig ar gyfer sectorau penodol, yn enwedig y sector iechyd a'r sector gwirfoddol a chymunedol. Llywodraeth Cymru yw'r asiantaeth briodol i arwain yn strategol ar yr agenda hwn - gan ddarparu arweinyddiaeth, galluogi newid a hyrwyddo arfer gorau – gan weithio gyda phartneriaid, yn cynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, i gefnogi asiantaethau cyflenwi gwasanaeth mewn bodloni eu dyletswyddau cyfreithiol o ran rhannu gwybodaeth.

**Argymhelliad 2: Dylid mynd i'r afael â darparu gwell hyfforddiant ar rannu gwybodaeth, datblygu protocolau rhannu gwybodaeth priodol a chyfreithiol, a gwella hunan fonitro arfer rhannu gwybodaeth fel blaenoriaethau ar gyfer asiantaethau cyflenwi gwasanaeth ar draws Cymru**. Dengys yr ymchwil bod ansawdd ac arfer rhannu gwybodaeth ar hyn o bryd yn amrywio'n sylweddol, mae'r cyfranogiad mewn hyfforddiant yn amrywiol ac mae bylchau sylweddol yn parhau yng nghwmpas y PRhG. Dylai'r gefnogaeth strategol ac arweiniad ar hyfforddiant, datblygiad PRhG a

Sicrwydd Ansawdd a'r arfer monitro barhau i gael ei ddarparu gan y Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol a'r Tîm WASPI; dylid rhoi ystyriaeth i'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer hyn. Fodd bynnag, yr asiantaethau cyflenwi gwasanaeth unigol sy'n gyfrifol am gyflawni'r gwelliannau.

**Argymhelliad 3: Dylai hyrwyddo trosglwyddiad gwybodaeth yn ddiogel (e.e. drwy negeseuon e-bost wedi'u hamgryptio) fod yn flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru, cyrff cenedlaethol eraill sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth ac asiantaethau cyflenwi gwasanaeth.** Dylai arweiniad clir gael ei ddatblygu a'i ddarparu i'r holl sefydliadau perthnasol, a dylid sefydlu protocolau a systemau i alluogi gwybodaeth i gael ei throsglwyddo'n ddiogel rhwng gwahanol sefydliadau a sectorau - yn cynnwys ar draws sefydliadau sector cyhoeddus a'r sectorau gwirfoddol/cymunedol a phreifat.

**Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio'n bellach y cyfle i ddatblygu 'dynodwr cyffredin' cyson ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth ar draws sectorau perthnasol.** Dengys yr ymchwil mai anaml y caiff dynodwyr cyffredin o'r fath rhwng asiantaethau eu defnyddio mewn rhannu gwybodaeth yn y meysydd gwasanaeth a gwmpesir, gan leihau'r posibilrwydd ar gyfer gweithio amlasiantaeth gwir integredig a gwell effeithiolrwydd o ran rheoli gwybodaeth. Yn ein harolwg ar-lein y diffyg dynodydd cyffredin oedd y pedwerydd 'rhwystr mawr' pwysicaf i rannu gwybodaeth yn effeithiol, allan o'r deg a brofwyd (ar ôl anghyfaddasrwydd TG, ymarferwyr heb fod yn glir sut/pryd i fynd ati i rannu gwybodaeth, a phryderon ymarferwyr ynglŷn â thorri dyletswyddau cyfreithiol).

**Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru, cyrff cenedlaethol eraill sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth ac asiantaethau cyflenwi gwasanaeth ystyried dewisiadau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso datblygiad protocolau rhannu gwybodaeth,** a all yn ymarferol fod yn her gymhleth mewn cynllunio darpariaeth gwasanaethau ar y

cyd, yn enwedig lle mae llawer o bartneriaid yn cyfranogi. Yn benodol, dylid rhoi ystyriaeth i sut y gellir defnyddio a chefnogi'r 100+ o hwyluswyr PRhG hyfforddedig yn fwy effeithiol; dengys yr ymchwil nad yw hwyluswyr hyfforddedig yn aml, yn cyflawni'r rôl hon yn ymarferol yn dilyn yr hyfforddiant.

**Argymhelliad 6: Mae angen gwell rheoli perfformiad ar gyfer y Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol, a'r WASPI, i olrhain cynnydd mewn cyflawni yn erbyn yr allbynnau datganedig a chanlyniadau'r Rhaglen.** Dylai hyn gynnwys targedau ffurfiol ar gyfer cyflenwi PRhG gwarantedig a rhai sy'n cytuno i'r WASPI, a dull mwy 'strategol' i lenwi bylchau mewn cwmpas a sicrhau bod yr holl feysydd gwasanaeth, mathau sefydliad a lleoliadau gofodol wedi eu cwmpasu'n gyson. Mae'r model rhesymeg a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn offeryn defnyddiol ar gyfer fframio'r broses hon. Fel un cam ymarferol, gellid ailadrodd yr arolwg ar-lein ar gyfer unigolion sy'n ymwneud mewn rhannu gwybodaeth, systemau a llywodraethu bob un neu ddwy flynedd er mwyn darparu tystiolaeth feintiol barhaus o bob rhan o Gymru ar arfer rhannu gwybodaeth a chyfraniad y Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol a WASPI. Yn fwy hirdymor dylai'r Rhaglen Rhannu Gwybodaeth Bersonol ystyried cynnal cynllun peilot dadansoddiad cost a budd ffurfiol er mwyn deall a dangos effeithiau arfer rhannu gwybodaeth.

Awdur: SQW Ltd

ISBN 978-0-7504-8656-9